


PARTNERIAETH
OGWEN

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH OGWEN 2024

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 03 |
| Gweledigaeth | 04 |
| Llwybr Trawsnewid | 05 |
| Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd | 09 |
| Cymuned | 11 |
| Amgylchedd | 27 |
| Iaith a Diwylliant | 31 |
| Economi | 36 |
| Materion Corfforaethol | 45 |
| Crynodeb Ariannol | 47 |
| Casgliadau Symud Ymlaen | 48 |






# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn gofnod o waith Partneriaeth Ogwen yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2023 a Tachwedd 2024. Mae'r adroddiad yn crynhoi prif brosiectau'r Bartneriaeth gan dynnu sylw at ymdrechion staff a gwirfoddolwyr Partneriaeth Ogwen yn ystod y flwyddyn.

***Cyd-greu dyfodol lle mae'r economi, yr iaith a'r diwylliant, yr amgylchedd a'n cymuned yn ffynnu.***

# Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen

Yn unol â'n cynllun busnes, gweledigaeth Partneriaeth Ogwen yw creu cymuned a sefydliad cydnerth sy'n gweithredu'n arloesol er budd cymunedau, economi ac amgylchedd Dyffryn Ogwen.

Rydym yn amcanu i wneud hyn trwy:

- Gryfhau seiliau'r sefydliad gan gynyddu'n cymhwysedd staffio i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau o'r ansawdd uchaf.
- Gwarchod a chreu ffrydiau incwm newydd.
- Atgyfnerthu ein polisïau a gweithdrefnau mewnol i warchod ein staff a gwirfoddolwyr.
- Blaenoriaethu prosiectau sy'n creu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gyda ffocws ar drosglwyddo asedau cymunedol, prynu asedau newydd i greu incwm a phrosiectau sy'n gwneud ein cymuned yn fwy gwydn, cynaliadwy a chydnerth.
- Cydweithio yn arloesol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.

Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n holl weithgareddau ac yn cwmpasu cynaladwyedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.



# Llwybr Trawsnewid Partneriaeth Ogwen

Yn 2021, mabwysiadwyd Llwybr Trawsnewid (Theory of Change) sy'n gosod amcanion a deilliannau byrdymor a hir dymor i'n gwaith a gosod fframwaith i fesur effaith ein prosiectau. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cydfynd â'r targedau a amlinellwyd yn ein Llwybr Trawsnewid ac atodir dadansoddiad o'n cyrhaeddiad yn erbyn allbynnau a deilliannau'r cynllun hwnnw yn Atodiad 1.

# LLWYBR TRAWSNEWID PARTNERIAETH OGWEN

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD CYMUNEDOL** | | | | |
| **CYNNAL CYMUNED GYNHWYSOL**<br><br>Yn ôl arolwg cymunedol 2020, roedd 82% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned.<br>Roedd 83% o ymatebwyr hefyd yn teimlo i raddau bod pobl yna i'w helpu os oes angen.<br><br>Dim ond 8% o ymatebwyr arolwg cymunedol 2020 oedd dan 25 oed. | Cynnal swyddfa Ogwen ar y Stryd Fawr fel pwynt cyswllt ar gyfer 3 Chyngor Cymuned y dalgylch.<br><br>Darparu gwasanaeth clercio i'r 3 chyngor cymuned.<br><br>Datblygu cyfleon gwirfoddoli amrywiol trwy brosiectau Dyffryn Gwyrdd, Siop Ogwen a Chadwyn Ogwen.<br><br>Ymgynghori â pobl ifanc a darparu profiadau gwaith, prentisiaethau, cyflogaeth a phrofiadau gwirfoddoli amrywiol iddynt. | 1300 o ymweliadau gan drigolion i swyddfa Ogwen bob blwyddyn.<br><br>Gwasanaeth clercio o safon i 3 chyngor cymuned.<br><br>Trefn recriwtio, cofnodi a chefnogi gwirfoddolwyr mewn lle.<br><br>3 o bobl ifanc (16-24 oed) yn gwirfoddoli/gweithio efo Partneriaeth Ogwen bob blwyddyn. | Mwy o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli a chyfrannogi yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Cyswllt agosach rhwng y gymuned a'r 3 Chyngor Cymuned lleol.<br><br>Mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn eu cymunedau a mwy o arweinwyr cymunedol. | Cyfranogiad uwch gan ein cymuned a phobl ifanc mewn prosiectau datblygu cymunedol a democratiaeth lleol.<br><br>Iechyd a Lles ac ymdeimlad o berthyn yn cynyddu yn ein cymuned. |
| **ATAL TLODI AC UNIGEDD**<br><br>Mae tair o wardiau DO ymhlith y 25% mwyaf difreitiedig yng Nghymru<br><br>Mae 1458 o ddefnyddwyr i'r banc bwyd lleol rhwng mis Mawrth 2020 a Mai 2021.<br><br>Nid oes gan 26.6% o drigolion lleol fynediad at gar a mae cludiant yn broblem iddynt<br><br>7.2% o drigolion y dyffryn yn byw mewn tlodi tanwydd o gymharu a cyfartaledd Cymru o 2.3% | Datblygu cynllun a Hwb Dyffryn Gwyrdd i atal tlodi yn Nyffryn Ogwen yn cynnwys prosiectau penodol i fynd i'r afael a thlodi tanwydd, tlodi bwyd a thlodi trafnidiaeth.<br><br>Datblygu Banc Bwyd a Chynllun Rhannu Bwyd Dyffryn Ogwen trwy ddosbarthu bwyd a chydlynu tim o wirfoddolwyr.<br><br>Datblygu Cynllun Cyfaill Cymunedol i ddanfon prydau poeth, lleihau unigedd a hyrwyddo cynhwysiant digidol.<br><br>Sefydlu cynllun cludiant cymunedol gwyrdd fydd yn cludo trigolion mewn tlodi trafnidiaeth i apwyntiadau meddygol, gwaith a chymdeithasol. | Cyfeirio 300 o drigolion at wasanaethau cymorth Dyffryn Gwyrdd ac asiantaethau eraill bob blwyddyn<br><br>1000 o becynnau cymorth bwyd yn cael eu rhannu bob blwyddyn.<br><br>1000 o brydau Cyfaill Cymunedol yn cael eu darparu bob blwyddyn.<br><br>100 o deithiau blynyddol yn y cerbyd cymunedol | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu allan o dlodi ac unigedd. | Llai o dlodi yn Nyffryn Ogwen gyda llai o bobl yn gorfod defnyddio'r banc bwyd a llai o bobl mewn tlodi trafnidiaeth.<br><br>Cydweithio agosach gyda asiantaethau eraill i ddarparu cefnogaeth i drigolion sy'n dioddef tlodi ac unigedd. |

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD AMGYLCHEDDOL** | | | | |
| **PROSIECTAU TYFU CYMUNEDOL A GWIRFODDOLI AMGYLCHEDDOL ER BUDD LLESIANT**<br><br>Mae nifer o brosiectau tyfu cymunedol yn y dyffryn ac awydd i blannu mwy at ddibenion atal tlodi bwyd a llesiant. | Prosiect Dyffryn Gwyrdd i arwain sesiynau llesiant a'r amgylchedd yn cyfuno iechyd corfforol a gweithredu amgylcheddol (e.e. Sesiynau Efeicio a Sesiynau Plannu Cymunedol)<br><br>Ardaloedd gwyrdd cymunedol newydd i gael eu adnabod a'u datblygu. | 50 o sesiynau llesiant a'r amgylchedd wedi eu cynnal.<br><br>3 ardal werdd gymunedol wedi eu datblygu a gardd Llys Dafydd wedi ei adfywio'n natur gyfeillgar. | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth i ddod allan o dlodi tanwydd.<br><br>Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol yn dod a buddion llesiant ac amgylcheddol.<br><br>Mwy o ardaloedd gwyrdd yn cael eu cynnal yn lleol. | Ol troed carbon y Dyffryn yn lleihau.<br><br>Cydweithio agosach gydag asiantaethau eraill sy'n ceisio atal tlodi tanwydd a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni. |
| **TACLO NEWID HINSAWDD**<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd<br>Atal newid hinsawdd yn bwysig i 81% o'r ymatebwyr.<br><br>Roedd 87% o'r ymatebwyr yn cytuno bod gennym gyfle i greu amgylchedd a chymuned gynaliadwy. | Prosiect GwyrddNi i ddechrau yn 2021 gyda bwriad i ddatblygu Cynulliad Newid Hinsawdd yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Prosiectau amgylcheddol newydd yn cael eu sefydlu yn cynnwys bws gwennol trydan a cherbyd trydan cymunedol. | Cynulliad Newid Hinsawdd wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.<br><br>Gwasanaeth bws gwennol a cherbydau trydan wedi ei sefydlu. | Pobl leol yn cydweithio i daclo newid hinsawdd<br><br>Llai o allyriadau carbon yn y Parc Cenedlaethol. | Dyffryn Ogwen yn arwain o ran datblygu cynaladwy cymunedol.<br><br>Math newydd o dwristiaid yn dod i'r ardal ac yn cefnogi'r economi leol. |
| **CREU BUDD IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL** | | | | |
| Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 85% o ymatebwyr yn credu fod Dyffryn Ogwen yn gyfoethog o ran iaith, diwylliant a threftadaeth.<br><br>Roedd 59% yn poeni am ddyfodol y Gymraeg. | Parhau i gynnal gweithleoedd, cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Parhau i gefnogi datblygiad Siop Ogwen – siop lyfrau Gymraeg a chrefftau ar y Stryd Fawr Bethesda.<br><br>Arwain prosiectau diwylliannol perthnasol e.e. dathliadau 200 mlwyddiant Bethesda<br><br>Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau lleol | 3 gweithle cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal gan Bartneriaeth<br><br>Siop Ogwen yn parhau i fod ar agor ar y Stryd Fawr a chynyddu gwerthiant arlein ac mewn marchnadoedd lleol.<br><br>5 digwyddiad/gweithgaredd treftadaeth bob blwyddyn<br><br>50 o fusnesau yn defnyddio'r Gymraeg ar ogwen.cymru a Cadwyn Ogwen. | Mwy o weithleoedd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mwy o gyfleoedd i weithio yn Gymraeg<br><br>Pobl leol yn cael cyfle i ddathlu treftadaeth a diwylliant<br><br>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan fusnesau. | Normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gwaith<br><br>Codi hyder pobl i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gwaith.<br><br>Cynnal y Gymraeg a'r diwylliant yn lleol<br><br>Mwy o statws i'r Gymraeg ymysg y sector fusnes. |

PARTNERIAETH OGWEN

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD ECONOMAIDD** | | | | |
| **ADFYWIO STRYD FAWR A CHEFNOGI BUSNESAU BACH**<br><br>Mae nifer y siopau sydd wedi cau ar Stryd Fawr Bethesda ar gynnydd a busnesau bach a chanolig yn wynebu cyfnod anodd yn sgil Covid-19.<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 74% yn teimlo nad oedd cyfleoedd gwaith addas ar gael yn lleol a 71% yn credu nad oedd digon o gyfleoedd i ehangu sgiliau a busnes.<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 88% yn credu fod prynu cynnyrch lleol yn bwysig. | Prynu adeiladau gwag ar y Stryd Fawr i'w cadw mewn perchnogaeth leol a'u rhentu allan i fusnesau eraill neu gynnal prosiectau ohonynt.<br><br>Datblygu gwasanaeth Cadwyn Ogwen – gwasanaeth archebu a danfon cynnyrch lleol mewn cerbyd trydan cymunedol.<br><br>Darparu gwasanaethau cefnogi busnes ar lefel micro yn ein cymunedau.<br><br>Cynnal gwefan www.ogwen.cymru<br><br>Trefnu gweithgareddau i adfywio'r Stryd Fawr yn cynnwys digwyddiadau yn Llys Dafydd. | 90% o eiddo Partneriaeth Ogwen mewn defnydd trwy gydol y flwyddyn.<br><br>20 o fusnesau lleol yn gwerthu ar blatfform Cadwyn Ogwen.<br><br>Cydweithio neu gefnogi 30 o fusnesau lleol bob blwyddyn.<br><br>Cynyddu y nifer o fusnesau lleol sydd efo presenoldeb ar wefan www.ogwen.cymru<br><br>Cynnal 10 o ddigwyddiadau yn Llys Dafydd bob blwyddyn gan gofnodi cynnydd footfall y Stryd Fawr ar system fonitro Patrwm. | Mwy o siopau ar agor ar y Stryd Fawr.<br><br>Cynhyrchwyr lleol efo 'outlet' lleol ar-lein i'w cynnyrch.<br><br>Busnesau lleol yn tyfu a ffynnu<br><br>Mwy o bobl leol yn cefnogi'r Stryd Fawr. | Pobl leol yn cefnogi busnesau lleol.<br><br>Busnesau micro lleol yn tyfu a ffynnu.<br><br>Buddsoddwyr preifat yn agor siopau yn yr ardal. |
| **ECONOMI WERDD** | Datblygu Canolfan Cefnfaes fel Canolfan Ragoriaeth Cynaladwyedd gyda gofod byncws, datblygu economaidd a gofod amlbwrpas i'w logi allan.<br><br>Datblygu prosiectau twristiaeth Gynaliadwy a Chymunedol<br><br>Paratoi ceisiadau grant i sefydlu bws gwennol trydan fyddai'n cludo ymwelwyr o Ddyffryn Ogwen i fyny i Nant Ffrancon ac yn ol. | Canolfan Cefnfaes wedi ei adnewyddu erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Prosiect Twristiaeth Gymunedol Dolan wedi ei ddatblygu erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Cynllun Bws Gwennol Trydan wedi ei sefydlu erbyn 2022. | Ased cymunedol wedi ei uwchraddio er budd ein cymuned, amgylchedd ac economi.<br><br>Cymunedoli'r sector dwristiaeth yn lleol a lle'n bosibl, perchnogi rhai asedau twristaidd.<br><br>Lleihau problemau parcio yn Nant Ffrancon a chynyddu'r budd economaidd lleol gan dwristiaid i'r ardal. | Cryfhau'r budd cymunedol ac amgylcheddol o dwristiaeth. |

PARTNERIAETH OGWEN

# Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd Partneriaeth Ogwen

Prif Swyddog Gweithredol – Donna Watts
Rheolwr Gwasanaeth Clercio – Bethan Roberts
Clerc – Caroline Jones
Rheolwr Cyllid ac Eiddo – Lliwen Morris
Gofalwr Eiddo – Dylan Jones
Gyrrwr Cymunedol – Colin Jeffreys
Gyrrwr Cymunedol – Efan Thomas
Rheolwr Dyffryn Caredig – Huw Davies
Gyrrwr Cymunedol – Dewi Roberts
Cyfaill Cymunedol – Linda Brown
Swyddog Hwb Ogwen – Ianto Shea
Swyddog Cynnal – Morgan Griffith
Rheolwr Hwb Ogwen – Marie Hodson
Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi – Chris Roberts
Mentor Marchnata Cymunedol – Abbie Jones
Rheolwr Prosiectau Economi Leol – Robyn Meredydd
Swyddog Cefnogi Prosiectau – Esme Sethi
Swyddog Beics Ogwen – Kyle Locke
Garddwr Cymunedol – Barry Roberts

**Wedi gadael i swyddi newydd yn ystod y cyfnod –**

Prif Weithredwr – Meleri Davies
Rheolwr Prosiect Gwaith Ymgynghorol – Cynan Jones
Swyddog Gweinyddol a Marchnata – Menna Thomas
Swyddog Marchnata - Anna Sethi

**Cyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen**
Dafydd Meurig
Einir Williams
Rheinallt Puw
Cyngor Cymuned Bethesda (Cynrychiolir gan Neville Hughes, Dyfrig Jones, Michael Williams, Bleddyn Williams a Paul Rowlinson)
Cyngor Cymuned Llanllechid (Cynrychiolir gan Jên Morris, Lowri Evans)
Cyngor Cymuned Llandygai (Mair Owen Pierce a Dafydd Owen)

**Pwyllgor Rheoli**
Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddirprwyaeth o Fwrdd llawn Partneriaeth Ogwen ac yn gynrychioladol o'r tri chyngor cymuned lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod bob deufis i fonitro rhaglen waith Partneriaeth Ogwen. Y Pwyllgor Rheoli yw:

Neville Hughes – Cynghorydd Cymuned Bethesda
Dafydd Meurig – Cynghorydd Sir
Jên Morris – Cynghorydd Cymuned Llanllechid
Dyfrig Jones – Cadeirydd Partneriaeth Ogwen a Cynghorydd Cymuned Bethesda
Einir Williams – Cynghorydd Sir
Mair Pierce – Cynghorydd Cymuned Llandygai
Rheinallt Puw – Cynghorydd Sir



*Rhai o staff y Bartneriaeth yng ngerddi Castell Penrhyn yn ystod eu cyfarfod tîm arbennig*

# CYMUNED






## CYNNAL CYMUNED GYNHWYSOL

Mae helpu ein cymuned yn greiddiol i holl weithgarwch Partneriaeth Ogwen a mae'n gwasanaethau cymunedol wedi cynyddu yn 2024.

**Cynghorau Cymuned**

Mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaeth clercio i dri Chyngor Cymuned - Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llandygai a Chyngor Cymuned Llanllechid. Mae'r gwaith clercio yn cynnwys trefnu, paratoi dogfennau a chofnodi yng nghyfarfodydd y Cyngor, delio â gohebiaeth ac ymholiadau gan y cyhoedd a rheoli cyllid ar ran y Cynghorau. Mae'r Clercod yn arwain hefyd gyda gwaith ychwanegol megis cydlynu trefn taliadau pori Pwyllgor Mynydd Llanllechid a threfnu Is-bwyllgorau Cyllid y cynghorau. Darperir y gwasanaeth gan dîm o staff proffesiynol i sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel i'r cynghorau. Arweinir y gwasanaeth gan Bethan Wyn Roberts sydd yn clercio i Gyngor Cymuned Bethesda a Chyngor Cymuned Llandygai a Caroline Jones yn clercio i Gyngor Cymuned Llanllechid.

Gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Bethesda, cyflogir Morgan Griffith hefyd fel Swyddog Cynnal i gasglu sbwriel yn yr ardal.

Yn ogystal â'r gwaith clercio, mae'r clercod wedi cefnogi gwelliannau ar y gof-golofnau ym Methesda, ariannu'r Clwb Ieunectid, pwyso ar faterion traffig yn yr ardal ac arwain ar y prosiect Murlun Canolfan Tregarth a Murlun Cysgodfan Bws yn Nhalybont.




*Y Cyng. Wyn Bowen Harries a'r arlunydd Elen Williams wrth furlun cysgodfan bws Talybont.*

**Swyddfeydd Partneriaeth Ogwen**

Mae gan Bartneriaeth Ogwen yn awr 4 gweithle/man gwaith i staff i'n gwaith. Mae rhain yn cynnwys Swyddfa Partneriaeth Ogwen, Swyddfa Dyffryn Gwyrdd, Hwb Ogwen a swyddfa newydd yng Nghanolfan Cefnfaes.

Mae ymwelwyr a'r swyddfeydd yn parhau'n gyson ac yn amrywio o ymholiadau gan gynhgorwyr cymuned, ymholiadau am yr heddlu, ceisiadau am gymorth neu ymholiadau am wasanaethau.

**Gwirfoddoli**

Mae gan Bartneriaeth Ogwen dros 84 o wirfoddolwyr sefydlog sy'n helpu gyda phrosiectau ymarferol y Bartneriaeth. Mae gennym hefyd gynghorwyr sir a chymuned sy'n goruchwylio ein gwaith ar Bwyllgor Rheoli Partneriaeth Ogwen. Rydym hefyd yn cydweithio gyda'r ysgolion lleol i gynnig profiadau gwirfoddoli ystyrlon i blant a phobl ifanc lleol. Mae 56 person ifanc o'r ysgolion uwchradd yn gwirfoddoli fel rhan o brosiectau fel Bro Ogwen, Gwobr Dug Caeredin a Dychmygu'r Dyfodol. Mae'r profiadau gwirfoddoli yn amrywio o helpu yn y clwb bwyd, cymryd rhan yn y sesiynau casglu sbwriel, coginio yn y sesiynau bwyd Swpar Chwaral, gwirfoddoli gyda Siop Ogwen, amryw o wasanaethau gyrru, ac hefyd garddio cymunedol.



# NATASHA

## GWIRFODDOLWR

Rwy'n dod o Kiyv, Wcráin yn wreiddiol a symudais i ardal Dyffryn Ogwen ym mis Gorffennaf 2022 yn sgil y rhyfel.

Fe wnes i glywed am gyfleoedd gwirfoddoli gyda'r Hwb gan fy ngweithiwr cymdeithasol, ac yn falch iawn o hynny.

Rwy'n astudio yng Ngholeg Menai 4 diwrnod yr wythnos ac yn gwirfoddoli gyda Clwb Bwyd Partneriaeth Ogwen ar brynhawniau Dydd Gwener.

Mae gwirfoddoli gyda phawb yn y clwb bwyd wedi helpu fy Saesneg ond hefyd rwy'n dysgu ambell i air Cymraeg. Dwi hefyd eisiau dysgu Rwsieg i bawb. Mae'r cyfle yma i ymarfer fy Saesneg a Chymraeg yn help mawr i fy hyder wrth siarad.
Mae'r tîm yn gefnogol iawn ac yn fy helpu gydag unrhyw heriau dwi'n wynebu, dwi'n edrych ymlaen at ddod draw a gweld pawb bob wythnos, nid yn unig y tîm Clwb Bwyd, ond y mynychwyr hefyd. Dwi'n dechrau dod i adnabod pobl yn y gymuned ac mae pawb mor gyfeillgar a chlên. Rwy'n ddiolchgar iawn am
y cyfle i wirfoddoli yng nghymuned Dyffryn Ogwen.



# Parker

Haia, Parker dw i. Un o Wyoming dw i yn wreiddiol ond rŵan dwi'n o nunlle! Sydd yn hwyl i ddeud achos mae'n swnio mor ddramatig. Wir ydi dwi di fod yn teithio ers chwe blynedd felly mae'n reit gyffredin i fi biciad mewn tref fach a gwirfoddoli, dod i nabod pobl, dysgu ryseitiau newydd, a dofi'r cathod lleol. a thro yma dwi di lanio ar Fethesda. Sôn am lwc! Dwi wir yn ystyried fy hun lwcus iawn i gael y cyfle i fyw yma dros y misoedd nesaf felly diolch o galon!

Os dach chi'n ddiflas yn ofnadwy, dyma fach o hanes fi. Oedd fy nhad yn gowboi oedd yn gweithio mewn pwll glo yn Wyoming—di beguelio ddim yn talu yn America. Oedd mam yn gweithio mewn ysgol ond pan ddaru nhw ysgaru gwnaeth mam gweithio dwy swydd am flynyddoedd. Chwara teg mam. Mae 'na ddau wedi ymddeol erbyn hyn a fy nhad yn byw mewn bwthyn pell i ffwrdd yn y mynyddoedd — ti methu gyrru car yno yn y gaeaf, a pob hyn a hyn bydd arth neu anifail gwyllt piciad draw. Mam fi yn hoff o feddylgarwch, mynd ar deithiau hefo fi, ac o hyd yn ffan fawr o fy nghlecs a chwynion.

Es i i'r Evergreen State College yn Olympia, Washington lle astudiais I "Mass Incarceration and the School to Prison Pipeline," a cymunedoli. Prifysgol hippi oedd o, felly, doedd na ddim rhaglen. Ges i gyfle i greu rhaglen fy hun felly nes i astudio hiliaeth gyfoes ac hiladdiad hanesyddol yn America. Trwy hynna ges i gyfle arbennig i neud interniaeth mewn carchar ar gyfer dynion ifanc rhwng 16 – 21 oed hefo criw o bobl o fy mhrifysgol, ac wedyn nes i astudio cymunedoli er mwyn newid y systemau cymdeithasol sydd yn gyfrifol am greu sefyllfaoedd ac amodau sy'n cynyddu'r posibilrwydd o rywun mynd i garchar yn lle prifysgol. Dwi di weithio mewn ysgolion, llochesi ddigartref, ar ffermiau ers hynny.

Ar ôl graddio, o'n i'n weld y pwysigrwydd i wybod os fedrwn i ymddiried yn bobl eraill a rhyw ysbryd mawr, felly nes i brynu ticed I Ewrop heb unrhyw gynllun am le swni'n aros o be swni'n neud, a nes i fawdio o gwmpas, gweithio mewn canolfannau Dhamma, ar ffermiau yn gofalu am geffylau, mewn B&B's, chippys, pizzeria, a phethau felly. Llynedd nes i symud i Drefriw yn ddyffryn Conwy am sbel lle nes i ddysgu Cymraeg trwy siarad hefo pawb yn Llanrwst a gwirfoddoli i Fenter Iaith Conwy. Blwyddyn nesaf dwi'n mynd i Brifysgol Bangor i astudio cwnsela.

# POBL IFANC

Am saith mis cyntaf 2024, bu Anna Sethi yn gweithio fel ein Swyddog Pobl Ifanc gyda chyllid drwy Lwyddo'n Lleol. Yn ystod y cyfnod hwn, bu Anna'n gweithio'n agos gydag Ieuenctid Gwynedd a'r ysgolion lleol i drefnu a chefnogi gweithdai a chyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc.

Hefyd cychwynnodd Anna y Clwb Mentergarwch gyda chyllid gan Adra, a roddodd gyfle i bobl ifanc leol ddechrau busnes gan ddefnyddio peiriannau Gofod Gwneud. Yna cynhaliodd y bobl ifanc mentrus hyn stondinau mewn digwyddiadau lleol i werthu'r cynhyrchion yr oeddent wedi'u creu.

Yn ogystal, gyda chyllid gan Elusen Ogwen a ffynonellau eraill, roedd Partneriaeth Ogwen unwaith eto yn gallu trefnu cyfres o weithgareddau rhad ac am ddim i deuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Isod mae cipolwg o'r hyn a gyflawnwyd yn yr amser byr.






## Dychmygu'r Dyfodol

Eleni, bu Partneriaeth Ogwen yn gweithio mewn partneriaeth ag Economi'r Bobl, Ysgol Dyffryn Ogwen, Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd a GISDA i ddod â phrosiect newydd cyffrous i bobl ifanc Dyffryn Ogwen. Trwy weithio gydag Ymarferydd Dychymyg, arweiniwyd grŵp o bobl ifanc trwy gyfres o weithdai lle cawsant y cyfle i ddychmygu Dyffryn Ogwen y byddent am fyw ynddo.

Daeth yr artist Menai Rowlands â'u Dyffryn Ogwen ddychmygol o 2034 yn fyw a'i gyflwyno i randdeiliaid lleol mewn arddangosfa bersonol ac ar-lein. Cawsom ymateb gwych gan gynghorwyr lleol a rhanddeiliaid eraill, a weithiodd gyda'r bobl ifanc i gymryd camau pendant i ddatblygu eu syniadau. Roedd y gweithredoedd yn cynnwys sesiynau merched yn unig yng nghampfeydd Byw'n Iach, Clwb Ieuenctid oedd yn addas ar gyfer blynyddoedd 10 hyd at 6ed dosbarth, yn ogystal â chael cyfle i leisio eu barn ar faterion trafnidiaeth sy'n effeithio ar eu gallu i gyrraedd swyddi a chyfleoedd addysg.





# ATAL TLODI

Y datblygiad pennaf o ran ein prosiectau atal tlodi oedd sefydlu Hwb Ogwen yn ystod 2023 a 2024 – hwb cymunedol sy'n darparu cyngor i drigolion lleol i atal tlodi. Gwneir hyn mewn sesiynau galw heibio ddwywaith yr wythnos ble mae trigolion lleol yn gallu cael pecynnau bwyd argyfwng, talebau tanwydd drwy'r Fuel Bank Foundation a chyngor arbed ynni ac arbed arian.




*Canolfan Hwb Ogwen ar Stryd Fawr Bethesda*

Ers mis Ionawr 2024, rydym wedi cyflawni'r canlynol –

- 2156 o ymwelwyr i Hwb Ogwen rhwng Ionawr a diwedd Tachwedd 2024
- 190 o ymwelwyr newydd wedi ymweld a'r Hwb
- 754 Pecyn Bwyd wedi ei ddosbarthu ac 20 o gyfeiriadau pellach i Fanc Bwyd Arfon neu Fangor
- 208 Taleb Tanwydd wedi ei ddosbarthu oedd yn werth £12,282
- 34 SIM Card wedi ei dosbarthu
- 66 person wedi cael cyngor Gwynedd Ddigidol
- 19 person wedi ymweld â Cyngor ar Bopeth
- 346 wedi derbyn cymorth gan y Swyddog Hwb ar nifer o faterion, e.e.cymorth ar geisiadau budd daliadau, cymorth gyda llenwi ffurflenni megis cesiadau bathodyn glas
- 29 o becynnau Gaeaf wedi ei ddosbarthu




Mae Hwb Ogwen hefyd yn arwain ar gynllun Swpar Chwaral sy'n coginio prydau maethlon i drigolion lleol unwaith y mis. Mae'r bwyd yn cael ei goginio gan staff y Hwb gyda cymorth gwirfoddolwyr lleol. Rydym hefyd yn defnyddio rhoddion bwyd lleol, cyfraniadau o gynllun Fareshare a rhoddion ariannol gan fudiadau i ariannu costau'r cynllun.

Yn ystod 2024, mae'r sesiynau wythnosol wedi creu 129 o brydau poeth.

**Y Clwb Bwyd**

Gyda chefnogaeth cynllun Fareshare, mae tîm Hwb Ogwen wedi parhau i rannu bwyd fyddai wedi mynd i wastraff yn ein cymuned. Yn dilyn ymgynghori gyda defnyddwyr penderfynwyd adolygu'r system rannu bwyd a chodi ffi am bob bag wythnosol. Bellach, defnyddir cyfran o'r bwyd Fareshare tuag at waith Hwb Ogwen – yn benodol nosweithiau Swpar Chwaral a phecynnau bwyd argyfwng ond mae gweddill y cynnyrch yn cael eu pecynnu i aelodau'r Clwb Bwyd sy'n dod i gasglu eu bagiau bob dydd Gwener. Mae bag yn £5, ac am y pris hwnnw mae'r aelodau yn cael gwerth o leiaf £10 o fwydydd gwahanol gan helpu i leihau gwastraff. Mae'n apelio at drawsdoriad eang o'r gymdeithas, yn deuluoedd, pobl sengl, yr ifanc a'r hyn ac i bobl mewn cyflogaeth a phobl di-waith. Mae'r datblygiad diweddaraf hwn bellach wedi ennill ei le yn narpariaeth y Bartneriaeth gyda dros 180 o aelodau'n cymryd rhan yn y gwaith a chyfartaledd o 30 bag yr wythnos yn cael eu rhannu. Golyga hyn fod 180kgs yr wythnos o fwyd yn cael ei arbed rhag mynd yn wastraff. Mae'r arbediad ariannol yn leiafswm o £5 yr wythnos fesul bag, cyfartaledd 30 aelod yr wythnos, sydd yn gyfanswm o £5550 o arbedion i'r gymuned yn y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod 2024 -

- Rhannwyd 1218 bag
- Arbedwyd 8460kgs o wastraff bwyd.
- Arbedwyd £5899 i'n cymuned

**Cydweithio gyda partneriaid**

Yn ogystal â gwasanaeth gan staff Hwb Ogwen, mae'n staff wedi trefnu sesiynau galw heibio gyda Cyngor ar Bopeth, Citizens Online, Gwaith Gwynedd, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, GISDA, Tŷ Gobaith a Gofalwyr di-dal.

Mae'r cyllidwyr canlynol wedi cyfrannu at gostau rhedeg Hwb Ogwen yn ystod 2024 – Stad Penrhyn (Ymddiriedolwyr Douglas Pennant), Cyngor Gwynedd- Cronfa Ffyniant Cyffredin a Cronfa Costau Byw, Tesco a National Energy Action.

Rydym hefyd wedi derbyn rhoddion hael iawn (arian parod a bwydydd) gan Eglwys Tal y Bont, Capel Carmel, Plaid Cymru, Blakemore, Neville ac Angharad Hughes a Chynghorau Cymuned Bethesda, Llandygai a Llanllechid. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i bawb sydd yn rhoi cynnyrch yn y fasged parhaol yn Londis.

**Warden Ynni**

Gyda chefnogaeth Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), mae'r swydd Warden Ynni yn parhau.

Mae'r Warden yn gweithio yn Hwb Ogwen ac yn trefnu apwyntiadau i roi cyngor ynni i'n cymuned ar faterion megis tlodi tanwydd a budd-daliadau. Gyda'r Hwb ar agor ddeuddydd yr wythnos enillwyd ymddiriedaeth y gymuned yn ein gwasanaethau a hynny drwy gynnig cyngor a chefnogaeth yn yr Hwb ac drwy ymweliadau cartref.

**Cyfaill Cymunedol**

Mae Linda wedi bod yn perfformio rôl hanfodol fel Cyfaill Cymunedol, gan gynnig cwmnïaeth a chefnogaeth emosiynol i drigolion hŷn ac unig yr ardal. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar wella lles ac ymdeimlad cymdeithasol hyd at 15 o unigolion bob wythnos, llawer ohonynt efallai yn ynysig yn gymdeithasol oherwydd oedran, problemau iechyd a symudedd, neu ddiffyg presenoldeb teulu.

Mae ymweliadau Linda yn cynnwys gwiriadau rheolaidd a threulio amser o safon gyda'r unigolion hŷn hyn. Mae'r gweithgareddau'n amrywio ac yn dibynnu ar anghenion a dewisiadau pob unigolyn, ond maent yn nodweddiadol yn cynnwys:

- Sgyrsiau cyfeillgar
- Eu hebrwng ar deithiau cerdded neu i gyfleusterau lleol
- Cynnig clust i wrando ar eu pryderon
- Darparu cymorth ysgafn gyda thasgau dyddiol

Mae'r rhyngweithio hwn yn darparu cwmnïaeth fawr ei hangen. Mae hyn yn helpu i leddfu teimladau o unigrwydd, sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a chorfforol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth hŷn.

Mae rôl Linda yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned ac yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, sy'n broblem gynyddol ymhlith pobl hŷn. Drwy ymweld yn rheolaidd a chysylltu â'r unigolion hyn, mae Linda:

- Yn gwella eu hwyliau a'u lles meddyliol
- Yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol pan fo'n bosib
- Yn darparu system anffurfiol o gefnogaeth emosiynol, gan roi rhywun iddynt siarad â nhw'n rheolaidd

Mae'r bobl y mae Linda yn ymweld â nhw yn aml yn mynegi gwerthfawrogiad am ei chwmni, gan bwysleisio sut mae ei hymweliadau yn rhoi rhywbeth iddyn nhw edrych ymlaen ato ac yn torri ar undonedd eu hwythnos.

Mae cyfraniad Linda fel Cyfaill Cymunedol yn hynod werthfawr. Mae'n darparu cefnogaeth emosiynol hanfodol i aelodau bregus ein cymuned, gan eu helpu i gynnal cysylltiad â'r byd allanol. Nid yn unig mae ei gwaith yn cael effaith ar fywydau'r henoed y mae'n ymweld â nhw ond hefyd yn cyfoethogi'r gymuned drwy feithrin ymdeimlad o gymdeithasgarwch a thosturi.




# DYFFRYN CAREDIG

Sefydlwyd y Dyffryn Caredig yn Nhachwedd 2023 a hynny gyda chefnogaeth cronfa Pawb a'i Le Cronfa Gymunedol y Loteri. Dilynodd hyn waith blaenorol y Dyffryn Gwyrdd, ond mae'r prosiect hwn gyda phwyslais penodol ar drafnidiaeth cymunedol.


Yn ystod blwyddyn gyntaf prosiect y Dyffryn Caredig, ac er mwyn cyflawni'r gwaith gwarchodwyd pum swydd a chrewyd dwy swydd newydd. Gan ddefnyddio pum cerbyd 100% trydan y Bartneriaeth cwblhawyd 1,454 o deithiau dros y 12 mis. Amrywiodd rhain o deithiau byrion yn ein cerbyd MPV (Efan) i'r Feddygfa ym Methesda, cludiant rheolaidd i Ysgol Dyffryn Ogwen yn y ddwy fws mini, casgliadau a danfoniadau bwyd yn y fan fach wen (Tryfan) i deithiau personol yn y car teulu, Carnedd ar hyd a lled Cymru a Lloegr. Agwedd arall o'r gwaith hyn sy'n brysur ennill ei le yw teithiau siopa a llesiant ar ddydd Sadwrn ar gyfer trigolion lleol - bu rhain yn brysur dros y gwanwyn a'r haf gyda henoed yr ardal gan fwyaf yn teithio i gyrchfannau lleol yn ogystal ac ar hyd yr arfordir ac ambell daith dros y ffin.

Yn ystod y cyfnod hwn 'roedd 120 o'r cyfanswm uchod yn deithiau preifat yn Carnedd y car Co-Wheels. Daeth cyfnod y bartneriaeth honno'i ben ar ddiwedd Hydref eleni ac rydym yn gweithio ar bartneriaeth newydd gyda TrydaNi ar gyfer llenwi'r bwlch. Er fod y car hwn wedi bod yn ddigon poblogaidd (trafeiliodd dros 30,000 yn ystod ei dair blynedd gyda ni) ac wedi agor llygaid sawl person yn y Dyffryn i deithio trydan nid oedd y berthynas busnes gyda Co-Wheels y gorau a gobeithiwn greu perthynas fwy hafal gyda TrydaNI ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid yn unig mae ein nifer teithiau a'r milltiroedd wedi cynyddu, ond hefyd y nifer o deithwyr sy'n defnyddio'n gwasanaethau.

Yn ystod y flwyddyn mae‘r nifer o deithwyr newydd a gofnodwyd, 160, wedi bod yn gynydd sylweddol iawn. Daw’r mwyafrif o’r rhain o’r gwaith gyda Ysgol Dyffryn Ogwen, ond ‘rydym hefyd wedi denu defnyddwyr newydd hefyd o gymdeithasau megis Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen, gwaith rheolaidd ar gyfer Dementia Actif, gwaith ychwanegol ar gyfer ymweliadau gan gyrff fel Partneriaeth Tirweddau Cymru, Arweinwyr Mynydda lleol ac ati. Calonogol hefyd yw’r cynnydd o aelodau unigol sy’n defnyddio’n cerbydau gan nad ydynt yn gyrru, heb fynediad at gerbyd neu’n ei chael yn anodd i ddal bysus Arriva - achosion a nodwyd gan waith ymchwil yn 2018 gan y Bartneriaeth fel sail i’r cais Dyffryn Gwyrdd. Braf hefyd yw cofnodi fod cynnydd wedi bod yn y gwaith a wneir ar gyfer adrannau Cyngor Gwynedd ee gyda Gwynedd Oed Gyfeillgar yn ddiweddar ac mewn partneriaeth gyda Plas Ogwen ar gyfer teithiau hamdden ar gyfer trigolion, cludo Cylch Meithrin Cefnfaes atynt am sesiynau ac ar gyfer cludo trigolion i ac o’r cartref ar gyfer cyfnodau ysbaid. Yn ogystal, mae unigolion wedi cofrestru fel defnyddwyr newydd ac wedi’u cludo ar gyfer amrywiaeth o resymau - apwyntiadau meddygfa, deintyddfa ac ysbyty, teithiau siopa a hamdden ac hefyd, yn ddiweddar, ar gyfer cludiant i’r gwaith.

Deilliant sylweddol o’r Dyffryn Caredig, ac un sy’n holl-bwysig wrth i gymunedau geisio lliniaru effaith cynhesu byd-eang yw lleihau’n allyriadau carbon. Drwy’r gwaith uchod a wnaed yn cludo trigolion yn ein cerbydau di-allbwn rydym wedi arbed 12.6 tunnell o garbon deuocsid - https://co2.myclimate.org/en/calculate_emissions




*Dosraniad teithiau cymunedol Dyffryn Caredig Rhagfyr 2023 - Tachwedd 2024*

## Bws trydan newydd gan Ynni Ogwen

Mae diolch mawr i Ynni Ogwen am gefnogi gwasanaeth cludiant cymunedol Partneriaeth Ogwen drwy noddi bws trydan newydd. Roedd hyn yn bosibl oherwydd yr elw o'r cynllun trydan dŵr llwyddiannus. Mae'r bws mini yn cael ei ddefnyddio rhan fwyaf gan yr ysgolion lleol yn ystod yr wythnos, gyda defnydd cymunedol ar benwythnosau.




**Christine Iris Jones, Rachub** "Wedi bod wrth fy modd cael y rhyddid i wneud hyn – roeddwn i wir wedi cael modd i fyw. Mae hyn yn sicr wedi codi fy nghalon yn fawr iawn ac yn ddiolchgar iawn i gynllun trafnidiaeth Y Dyffryn Caredig, Partneriaeth Ogwen a gwaith Linda fel Cyfaill Cymunedol".

**Di-enw, Tregarth** "'I just wanted to say how brilliant the community transport is in Bethesda. My sister still lives at our family home and as she doesn't have a car and is now waiting for a new hip and can no longer walk to the shops/chemist/GP. The community transport has been absolutely brilliant, not only taking her shopping but coming into the store with her to carry any heavy bags.'"

**Ceinwen Hughes, Bethesda** "Mae'r gwasanaeth yma o fynd a a phobl i apwyntiadau gan Bartneriaeth Ogwen werth y byd, Dwi'n gallu dreifio ond fedrai'm mynd a'r car i Ysbyty Gwynedd - mae'r parcio'n rhy bell o'r adeilad. Mae medru cael cludiant o'r ty reit i ddrws y 'sbyty'n ahygoel. Diolch yn fawr i chi."

**Michelle Rowlands** "Dwi newydd ddechrau defnyddio Carnedd, car trydan Partneriaeth Ogwen. Ddaru fi ymaelodi efo Co-Wheels, daeth y cardyn plastig drwy'r post a wedyn ffwrdd a fi. Mae defnyddio'r car yma'n gweithio'n gret i mi am sawl rheswm gwahanol - mae'r pris yn dda, mae'n awtomatig ac mae wedi'i leoli yn Y Llyfrgell o fewn pellter cerdded. Hefyd, mae rhedeg car, yn enwedig i rhywun sydd ddim yn ei ddefnyddio'n aml, wedi mynd yn gost enfawr. Mae'r disl yn ddrud, cynnal a chadw heb son am gostau yswiriant. Mae medru hurio'r car fesul awr neu diwrnod yn siwtio fi i'r dim - ac yn dda i'r amgylchedd wrth wefru drwy baneli solar y Bartneriaeth! Fuaswn i'n dweud wrth unrhyw un sy'n meddwl hurio, newid car neu meddwl mynd lawr o ddau gar i un feddwl am drio'r drefn newydd yma".



## Beics Ogwen

Elfen arall bwysig o waith y Dyffryn Caredig i gryfhau gwead ein cymuned yw'r prosiect beics, Beics Ogwen. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn mae Beics Ogwen wedi parhau'i gynnig gwasanaeth hurio ac atgyweirio beics ar gyfer Dyffryn Ogwen. Penodwyd Kyle Locke fel Cydlynydd Beics yn Chwefror 2024. Dros y naw mis diwethaf mae Kyle wedi dilyn cwrs hyfforddiant Cytech ac wedi bwrw ati'i ail-gyflwyno Beics Ogwen. Yn ystod y cyfnod hwn mae 65 o huriadau wedi bod i aelodau'r cyhoedd a cynhaliwyd tair sesiwn ysgolion mewn partneriaeth gyda elusen Sustrans. Hefyd cynhaliwyd dwy sesiwn Beics Hygyrch gyda chriw Dementia Actif yng Nghlwb Rygbi Bethesda a bu croeso mawr i'r sesiynau hynny. Yn ystod y cyfnod hefyd gwnaed dau gais llwyddiannus ar gyfer gweithgareddau haf ar gyfer teuluoedd lleol yn gwneud defnydd o feics a phwrcasu sgwterau ac offer diogelwch ar gyfer ymestyn ystod gweithgareddau'r prosiect. Cefnogwyd y gweithgareddau hyn gan Elusen Ogwen a chronfa Gweithgareddau Haf Heddlu Gogledd Cymru ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cefnogaeth. Bu'n frwydr yn erbyn y tywydd i gynnal gweithgareddau tu allan 'leni ond 'roedd un o'r sesiynau, Hwyl Haf Beics yn hynod llwyddiannus. Ar yr un pryd a'r gwaith hyn cynhaliwyd 21 sesiwn trin a thrwsio beics a sgwterau, a datblygwyd y gwaith atgyweirio a hynny ar gyfer trigolion lleol, a gyda Kyle yn dod i adnabod trigolion y Dyffryn gobeithiwn weld yr elfen hon yn tyfu dros y 12 mis nesaf.

**LJ, Bethesda** "Thank you very much for the great fun for kids (especially my kids). It has been a wonderful thing for the kids to have this summer. I, as a parent of three kids, really appreciate these programmes as it makes/provides fun activities for kids to play with other kids and make/provide a friendly environment where kids and parents can share and get to know each other. The scooter programme has really helped my two boys to build their confidence and they're more adventurous now. Thanks once again for letting my boys borrow scooters from you."





## Prosiect SPF - Cludiant Cymunedol Gwynedd

Prosiect arall a weithredwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn y'r bartneriaeth uchod mewn cydweithrediad gyda aelodau Dolan - Yr Orsaf, O Ddrws i Ddrws a'r Dref Werdd. Sefydlwyd y prosiect hwn yng Ngorffennaf2023 a golygodd ein bod wedi medru manteisio ar sgiliau'r partneriaid a rhannu'n gwybodaeth ni ar gyfer budd trigolion ardaloedd eraill Gwynedd. Bwriad y prosiect hwn ar y cyd yw ymestyn cludiant cymunedol gwyrdd er mwyn darparu gwasanaethau i'r mwyaf anghenus yn ein cymunedau. Yn ogystal a darparu atebion ymarferol i'n cymunedau mae'r prosiect hwn wedi golygu'n bod wedi datblygu gwaith strategol gyda'r partneriaid a gyda'r CTA. Esiampl fyw o hyn oedd digwyddiad Bord Gron Trafnidiaeth Cymunedol Gwynedd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddechrau mis Mehefin. Daeth dros 40 o fynychwyr ynghyd i drafod a gweithio ar y ffordd ymlaen i drafnidiaeth cymunedol yr ardal gyda mynychwyr o'r Awdurdod Lleol, Trafnidiaeth Cymru a chyrff eraill a diddordeb mewn datblygu rhwydwaith gysylltiedig o wasanaethau cymunedol gwyrdd.

# LLWYBR TRAWSNEWID 2024

## CREU BUDD CYMUNEDOL

**1060**
o ymweliadau gan drigolion i swyddfa Partneriaeth Ogwen





**68**
mudiad wedi llogi ystafell cymunedol yng Nghanolfan Cefnfaes

**56**
o bobl ifanc wedi derbyn gwaith gwirfoddol, prosiect neu cyflogedig

**75**
o wirfoddolwyr yn cael cyfleon amrywiol yn ein Dyffryn bob blwyddyn



### Gwefan PO

Wedi ailwampio gwefan gorfforaethol Partneriaeth Ogwen, ac wedi diweddaru tudalennau gwefan cymunedol y Dyffryn - www.ogwen.cymru fel cyfeirlyfr o wybodaeth am fudiadau lleol



## HWB OGWEN A DYFFRYN CAREDIG

**820** o becynnau bwyd argyfwng wedi'i ddarparu i drigolion lleol

**249** o drigolion lleol wedi derbyn talebau tanwydd

**105** o ddefnyddwyr Hwb Ogwen wedi'i cyfeirio at asiantaethau eraill e.e CAB

**139** o henoed y Dyffryn wedi gweithio efo ni

**225** o drigolion wedi derbyn cludiant i'w helpu i gyrraedd apwyntiadau a digwyddiadau cymdeithasol



# PROSIECTAU TYFU CYMUNEDOL A GWIRFODDOLI AMGYLCHEDDOL ER BUDD LLESIANT

**Gerddi Cymunedol**

Diolch i grant gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru rydym wedi cyflogi Barry Roberts fel garddwr cymunedol ers Mawrth 2024. Mae Barry yn gweithio hefo gwirfoddolwyr yn y gymuned i gynnal a chadw gofodau cyhoeddus yn Tan Twr a Llys Dafydd yn ogystal a chynnal y tir o gwmpas y rhandiroedd a'r gerddi cymunedol yn Gardd Ffrancon. Yn ogystal mae Barry wedi bod yn helpu grwpiau cymunedol i gynnal gofodau eraill fel cae chwarae Tal y Bont a Caban Gerlan. Rydym wedi bod yn cyd-weithio hefo criw Balchder Bro i edrych ar ôl y basgedi crôg ar stryd fawr Bethesda ac i blannu cenin pedr yn yr ardal yn barod am y gwanwyn.

Hoffwn hefyd gydnabod gwaith caled criw bychan o arddwyr cymunedol gwirfoddol sydd wedi bod yn tyfu bwyd yn Gerddi Ffrancon ac yn helpu gyda chynnal a chadw Llys Dafydd. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd gweithdai gwneud jam yn Canolfan Cefnfaes gan ddefnyddio ffrwythau o Gerddi Ffrancon.




## PETHA

Ers i gynllun peilot Petha ddod i ben yn 2023, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd a Benthyg Cymru i redeg Llyfrgell y Petha mewn partneriaeth efo Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn cychwyn prosesau i alluogi bod offer trydanol ar gael drwy'r llyfrgell. Trwy gyllid Economi Gylchol gyda Menter Môn, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru, byddwn yn cyflogi Swyddog Llyfrgell y Petha i ddechrau ym mis Ionawr 2025 i'n helpu i ddatblygu a hyrwyddo Petha gyda'r bwriad o wneud Llyfrgell y Petha yn gynaliadwy cyn i'r rownd bresennol o gyllid ddod i ben ym mis Mawrth 2026.

# TACLO NEWID HINSAWDD

## GwyrddNi

Mae GwyrddNi wedi cychwyn ar y gwaith o wireddu'r Cynllun Gweithredu Cymunedol. Mae uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys:

Gŵyl Hinsawdd yn Tregarth ble wnaeth 25 o wirfoddolwyr rhoi rhaglen llawn dop o sgyrsiau, teithiau a gweithgareddau at ei gilydd gyda dros 120 o bobl yn mynychu ar y diwrnod, roedd yn ffordd dda o gychwyn sgwrs am yr argyfwng hinsawdd a datrysiadau lleol.

Dros fisoedd y gaeaf roedd teithiau mwsog misol yn cael ei cynnal yn yr ardal lleol dan arweiniad Emily Meileur gyda dros 50 o bobl wedi bod ar un o'r teithiau yma. Mae'r gwaith yn parhau i greu map o fwsog sydd i'w weld ar hyd yr Afon Caseg a fydd yn gallu cael ei rannu'n lleol.

Mae GwyrddNi hefyd yn gweithio yn agos hefo ysgolion yr ardal ac wedi cynnal sesiwn cyflwyniad i newid hinsawdd mewn 3 ysgol leol. Y cam nesaf hefo'r ysgolion ydi cefnogi'r disgyblion i weithredu ei hunain. Rydym yn cefnogi gwirfoddolwr i gynnal gardd Ysgol Abercaseg ble gall disgyblion ddysgu am dyfu bwyd.

Yn nhymor yr Hydref fe rannwyd holiadur hefo disgyblion ysgol yr ardal i ddeall mwy am eu arferion teithio i'r ysgol. Cafwyd 314 o ymatebion ac rydym rwan yn gweithio hefo'r plant a phobl ifanc i weld sut y gallem eu cefnogi i gerdded neu beicio i'r ysgol yn amlach. Daw hyn ar ôl ymgyrch teithio i'r gwaith fis Ebrill ble roedd ein gwirfoddolwyr yn helpu pobl oedd eisiau cychwyn ar feicio i'r gwaith.



**Sero Net Gwynedd a Pioneering Places**

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau yn bartner ym mhrosiect Sero Net Gwynedd. Cynllun dan arweiniad Cymdeithas Tai Adra sy'n amcanu i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar draws Gwynedd.

Yn ystod 2023, bu Partneriaeth Ogwen ac Ynni Ogwen yn bartneriaid ym mhrosiect Pioneering Places dan arweiniad Cyngor Gwynedd ac Energy Local. Bwriad y cynllun yw edrych ar ddulliau newydd o gyflenwi ynni yn lleol. Arianodd y prosiect adroddiad mapio potensial ynni adnewyddol y Dyffryn ac adroddiad arall yn edrych ar botensial rhwydwaith cludiant werdd.

Rydym nawr ar gwedd 2 o'r prosiect gyda gwerth 2 filiwn o gyllid gan Innovate UK i ddatblygu'r prosiect ymhellach ym Methesda a Blaenau Ffestiniog.

# LLWYBR TRAWSNEWID 2024

## CREU BUDD AMGYLCHEDDOL

### GWYRDDNI

42 sesiwn garddio er lles y gymuned wedi eu lleoli yng ngofodau cymunedol Partneriaeth Ogwen

2 o sesiynau coginio cymunedol gyda chynnyrch a dyfwyd yn y Dyffryn

8 sesiwn o ddysgu adnabod mwsog yn y Dyffryn

Batri

**64kW**

wedi ei osod ar do Canolfan Cefnfaes a

**39kW**

wedi ei ddefnyddio



**41** o feiciau wedi cael eu llogi o Beics Ogwen gyda **21** o sesiynau i drwsio beiciau y gymuned wedi digwydd o amgylch y Dyffryn

**23,034**

o filltiroedd gwyrdd wedi ei ddarparu wrth ddefnyddio Bws Ogwen



## Gŵyl Hinsawdd

**120** o bobl wedi mynychu gŵyl hinsawdd GwyrddNi gyda **25** o wirfoddolwyr yn helpu

wedi cynnal

**31**

sesiwn grŵp yn y Gofod Gwneud, Canolfan Cefnfaes ar gyfer trigolion y gymuned

156 o drigolion

lleol wedi derbyn cyngor arbed ynni trwy brosiectau GwyrddNi, Hwb Ogwen neu Sero Net Gwynedd



# IAITH A DIWYLLIANT



**Cynnal y Gymraeg**

Rydym yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yng ngweithgarddau Partneriaeth Ogwen ac yn parhau i weinyddu ein sefydliad yn y Gymraeg a'r prosiectau newydd yr ydym yn eu sefydlu. Rydym yn cynnig cyfleoedd cyflogi a gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg i bobl leol ac yn ymhyfrydu yn y ffaith bod nifer o ddysgwyr yn gwirfoddoli ac yn gwella eu Cymraeg efo ni. Yn ystod 2024, gyda chefnogaeth cronfa Cymunedau Mentrus Arfor sydd yn atgyfnerthu'r economi mewn ardaloedd Cymraeg, rydym yn hynod falch o fod wedi cynnig gwasanaethau marchnata a chyllid cymunedol i'n cymuned trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Siop Ogwen**

Er fod y siop yn endid cyfreithiol annibynnol, mae'r Bartneriaeth yn parhau i reoli gweinyddiaeth y siop ac i gefnogi'r Swyddog Datblygu o ran rheoli rhaglen waith a gweithgareddau'r siop. Mae'r siop yn cyfrannu tuag at hyfywedd y Stryd Fawr ond mae hi hefyd yn bwysig o ran hyrwyddo'r iaith a llenyddiaeth Gymraeg.

Roeddem yn hynod o falch o gael cefnogi 2 lansiad llyfr gan ddwy awdures leol yn ddiweddar – Rhuo ei distawrwydd hi, cyfrol cyntaf o farddoniaeth gan Meleri Davies a V + Fo, nofel cyntaf Gwenno Gwilym.

**Digwyddiadau Diwylliannol a Gŵyl Gwenllïan**

Yn ystod 2024, mae Partneriaeth Ogwen wedi cydweithio gyda phartneriaid i ddarparu 35 o ddigwyddiadau a gweithdai diwylliannol yn Nyffryn Ogwen, sydd 15 yn uwch na'n targed ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r esiamplau mwyaf nodedig yn cynnwys:

- Gweithio gydag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Castell Penrhyn ar eu gweithdai ac arddangosfeydd "Ailfframio" ynghyd a'u prosiect celf Nadolig
- Cefnogi Amgueddfa Lechi Cymru gyda phrosiectau ymgysylltu yn cynnwys gweithdai i ddathlu 150 mlynedd o Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru
- Cefnogi grŵp creadigol lleol gyda'u cyfarfodydd pythefnos
- Digwyddiadau lansio llyfrau plant a chynnal digwyddiadau llenyddol Cerddi Canol Pnawn
- Gweithio gyda Storiel i gynnal cyfres o weithdai gyda disgyblion blwyddyn 6 i drafod themâu yn ymwneud á Chanolfan Dreftadaeth Yr Hen Bost
- Arddangosfa a sgwrs gelfyddydol gydag artistiaid benywaidd o Ddyffryn Ogwen mewn partneriaeth gyda CARN fel rhan o Ŵyl Gwenllïan

Ym mis Mehefin 2024, cynhaliodd Bartneriaeth Ogwen Gŵyl Gwenllïan benwythnos o weithgareddau celfyddydol i ddathlu merched y Carneddau. Roedd yr ŵyl yn cynnwys taith tywys yn y Carneddau gydag un o'r Harweinwyr Tir Isel gwirfoddol a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau; gweithgareddau celf a diwylliannol i'r teulu; arddangosfa a dathliad o artistiaid benywaidd o Ddyffryn Ogwen; a noson llenyddiaeth a meic agored ar gyfer ysgrifenwyr lleol.





**Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg gan Fusnesau Lleol**



Mae polisi iaith Partneriaeth Ogwen yn gwbl gadarn a rydym hefyd yn cymryd pob cyfle i annog defnydd gan fusnesau a partneriaid yn lleol. Mae hyn yn cynnwys helpu busnesau lleol i greu cynnwys dwyieithog ar gyfer cyfeirlyfr busnesau www.ogwen.cymru. Mae dros 50 o fusnesau ar y platfform digidol yma.

**Hyrwyddo Treftadaeth leol gyda Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau**

Ymrwymodd Partneriaeth Ogwen i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau ym mis Ebrill 2023 i gyflawni prosiectau ar gyfer y Bartneriaeth yn Nyffryn Ogwen. Daeth y cytundeb yma i ben ym mis Awst 2024. Yn ystod y flwyddyn hon, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn gweithio ar y prosiectau isod drwy'r cytundeb yma.

- Lleisiau Lleol - Prosiect hanes llafar sy'n gysylltiedig â Lleisiau'r Carneddau. Derbyniodd grŵp o wirfoddolwyr hyfforddiant ac maent wedi dechrau cynnal cyfweliadau hanes llafar. Mae'r recordiadau hyn wedi'u llwytho i wefan Casgliad y Werin (https://www.casgliadywerin.cymru/users/114406) fel eu bod ar gael i bawb. Y nod yw adeiladu ar y casgliad hwn a gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned i gynnig ein gwasanaethau. Er enghraifft, buom yn helpu i hwyluso digwyddiad gyda Chaban Gerlan i gasglu hanes Gerlan ac Ysgol y Gerlan ym mis Hydref. Yn ystod y digwyddiadau cymunedol bywiog, casglwyd dros 120 o luniau a dogfennau gyda'u hanesion a'u straeon a fydd yn cael eu huwchlwytho i Gasgliad y Werin ar gyfer y dyfodol.
- Hyfforddi Arweinwyr Tir Isel Lleol - Mae 14 o bobl leol wedi derbyn hyfforddiant Arweinwyr Tir Isel gyda'r bwriad o sicrhau bod pawb yn gwbl gymwys erbyn mis Mawrth 2025. Yna byddwn mewn sefyllfa i gynnig cyfres o deithiau cerdded lleol am ddim gyda'r tywyswyr gwirfoddol hyn.
- Bwrdd Dehongli - Rydym ar hyn o bryd yn y broses o godi bwrdd dehongli y tu allan i Blas Ffrancon a fydd yn enwi'r holl fynyddoedd sydd i'w gweld oddi yno. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Ionawr 2025.
- Iaith Pesda - Gyda chymorth yr arbenigwraig leol Mary Jones a'r crefftwr lleol Alun Davies, cafodd disgyblion Ysgol Penybryn gyfle i ddysgu rhai geiriau traddodiadol a ddefnyddir ym Methesda a chreu llechi yn eu dathlu. Buont hefyd yn helpu i greu adnodd yn esbonio'r geiriau a'u diffiniadau. Cafodd y llechi eu harddangos dros yr haf mewn ffenestri siopau ar y Stryd Fawr.


Sleifar
Rhywbeth arbennig
Something special
Dow-Dow
Mynd yn ara bach
Go slowly
Dow Dow
Codi cyn fy sodlau
Codi'n fuan / Rising early
Lolian
Siarad heb llawer o synnwyr
Speaking without making much sense
Giamocs
Chwarae'n wirion a gwneud rhywbeth allai beri niwed ichi
Rough housing and doing something that could injure you
Locsyn Clust
"Sideburns"
Llafnau Ifanc
Ddynion ifanc / Young men
Pancan
Disgyn, syrthio
To fall or trip
Pledu
Taflu cerrig ar rhywbeth new rhywun
Throw stones at something or someone
Twca
Cyllell bara / Bread knife
Swper Chwarel
Enw i dê Chwarelwr ers talwm
Name for a Quarryman's tea
Tolpan
Lwmpyn o bridd hefo gwreiddiau, chwyn, a gwair wedi ei dynnu o'r ddaear
Lump of earth with roots, weeds and grass pulled from the earth
Bonclust
Clustan / "slap"
Tê Tramp
Dail tê sy'n aros yn gwaelod y gwpan
Tea leaves remaining at the bottom of a cup of tea
Understairs cupboard
Dwll o dan grisiau
Sbensh




Pancan



# LLWYBR TRAWSNEWID 2024

PARTNERIAETH OGWEN

## CREU BUDD IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL



**3**

gweithle cyfrwng Cymraeg wedi eu cynnal gan Bartneriaeth Ogwen



**7**

o siaradwyr Cymraeg newydd wedi gwirfoddoli gyda ni yn y flwyddyn

**17**

unigolyn yn rhan o brosiect Llen Mewn Lle i ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol

Wedi ymgysylltu gyda **700** o unigolion lleol ynglyn â'r Hen Bost



**34**

o weithdai diwylliannol yn lleol

**Gŵyl Gwenllian**

wedi ei gynnal ym mis Mehefin 2024 ac wedi bod yn lwyddiannus

# CEFNOGI BUSNESAU BACH A CHANOLIG AC ADFYWIO'R STRYD FAWR

**Eiddo**

Mae ein portffolio eiddo yn gyfuniad o adeiladau fel a ganlyn:

- Adeiladau rydym wedi'u prynu trwy grant a/neu fenthyciad a/neu reserfau Partneriaeth Ogwen (e.e. 26 a 27 Stryd Fawr ac Adeilad y Spar)

- Adeiladau rydym yn gyfrifol amdanynt trwy gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda

- Adeiladau rydym â phrydles arnynt gan Gyngor Sir Gwynedd (Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen a Chanolfan Cefnfaes)

**Siopau, Fflatiau a Stiwdios i denantiaid lleol**

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i weinyddu unedau ar Stryd Fawr Bethesda dan gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda. Mae pob uned fasnachol yn llawn ac mae'r tenantiaid yn cynnwys:
Tŷ Mo – cwmni lleol sy'n bragu cwrw
Cwmni Bwyd Môr Menai – busnes bwyd môr lleol
Siop 55 – siop nwyddau antiques
Annie's Orphans – siop elusen yn gwerthu dillad, teganau a llyfrau ail law

Rydym hefyd yn llogi 2 stiwdio i gwmnïau creadigol lleol –
9Bach – artistiaid cerddorol sy'n hanu o'r Gerlan
Stiwdio Ffram – cwmni lleol sy'n fframio lluniau.
Mae 6 fflat hefyd yn cael eu llogi i denantiaid lleol a mae unedau masnachol yn cael eu rhentu allan yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae incwm rhent yr eiddo yma yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r adeiladau a chostau rhedeg Partneriaeth Ogwen sy'n cynnwys cyflogi Gofalwr Eiddo un diwrnod yr wythnos.

# EIDDO PARTNERIAETH OGWEN

PARTNERIAETH OGWEN

**16**

o denantiaid yn defnyddio ein gofodau busnes â fflatiau





**5**

tenant fflatiau

**11**


tenant busnes

TŶ MO · MENAI SEAFOOD COMPANY · BWYD MÔR · Black Dragon · annie's orphans · 9BACH · RELIC · Siop 55



## Swyddfeydd PO

Swyddfa Ogwen
Dyffryn Caredig
Hwb Ogwen
Canolfan Cefnfaes





Yn ystod 2024, llwyddodd Grosvenor Construction Ltd i ennill y contract adeiladu ar Yr Hen Bost. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Ionawr 2025.

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad cymunedol helaeth trwy gydol y flwyddyn, gan gyrraedd dros 700 o bobl trwy ddigwyddiadau, gweithdai a holiaduron.

**Cadwyn Ogwen**

Yn anffodus, er gwaethaf yr ymdrechion i roi cynnig ar syniadau newydd ac ehangu rhwydwaith Cadwyn Ogwen, ni chafwyd cynnydd cyfatebol mewn gwerthiant na chwsmeriaid. Daeth y prosiect i ben ar ddiwedd Chwefror 2024.

**Gofod Gwneud**

Trwy gyllid Economi Gylchol a Chyngor Gwynedd, mae Gofod Gwneud wedi'i sefydlu yng Nghanolfan Cefnfaes i gynnig mynediad i beiriannau megis argraffydd 3D, argraffydd sychdarthiad a gweisg gwres, torrwr laser a thorrwr finyl.

Gyda chymorth cyllid Menter Môn a'r Economi Gylchol, rydym wedi cynnal 31 o sesiynau rhad ac am ddim yn y Gofod Gwneud eleni, sydd wedi amrywio o sesiynau anwytho gyda'r peiriannau, sesiynau crefft i deuluoedd, sesiynau celf i bobl ifanc, sgyrsiau gan artistiaid, a mwy. Rydym hefyd wedi gallu cynnig amser gyda thechnegwyr ar gyfer unigolion a busnesau sydd am ddefnyddio'r peiriannau at ddibenion hamdden a busnes.

Yn 2025, byddwn yn edrych am ffyrdd o adeiladu cymuned o ddefnyddwyr y Gofod Gwneud, cynyddu capasiti a hyder gyda'r peiriannau o fewn staff Partneriaeth Ogwen, a dod o hyd i ffyrdd o gynhyrchu incwm i'r gofod er mwyn ei wneud yn gynaliadwy unwaith y bydd y cyfnod cyllido hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2026.







## Gwasanaethau Cefnogi Busnesau a Mentrau eraill

Yn 2023, mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo gyda chais i gronfa cymunedau Mentrus Arfor i ariannu cynllun mentora cymunedol. Ma'r mentora'n cynnwys mentora cyllidol a  marchnata gyda'r bwriad i helpu busnesau bach a chanolig a sefydliadau lleol. Fel rhan o'r gwaith mentora cyllid rydym yn cynnig amryw o wasanaethau gwahanol i fusnesau ac unigolion lleol sy'n cynnwys cadw llyfrau, sefydlu prosesau cyllidol ar gyfer busnesau newydd, gwasanaeth gyflogres a mentora unigolion gyda'u hunan asesiad. Ers cychwyn ar y gwaith yma mae Lliwen Morris ein Mentor Cyllid Cymunedol wedi sefydlu system gyfrifo o'r newydd ar gyfer Cymunedoli Cyf a derbyn trosglwyddiad o wasanaeth cyflogres gan Cyngor Gwynedd ar gyfer cyflogwyr sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ar gyfer gofalwyr gyda'r bwriad o ddatblygu hyn efo'r Cyngor yn 2025. Erbyn diwedd 2024 Mae hi hefyd wedi mentora 35 o fusnesau ac unigolion leol yn ogystal a chreu bron i £10,000 o incwm i'r bartneriaeth drwy'r gwasanaeth yma.






## Canolfan Cefnfaes

Mae'r ardaloedd sydd wedi'u hadnewyddu yng Nghanolfan Cefnfaes bellach wedi bod ar agor ers canol 2023, ac wedi cynyddu'n aruthrol mewn defnydd cymunedol yn 2024. Gellir archebu ystafelloedd gan ddefnyddio ein llwyfan Simply Book: https://partneriaethogwen.simplybook.it/v2/

Mae'r Ystafell Gymunedol a'r gegin yn cael eu harchebu'n rheolaidd ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd gan gymdeithasau lleol, colegau, gweithwyr iechyd a grwpiau cymunedol. Eleni buom hefyd yn gweithio gyda Chlwb Camera Dyffryn Ogwen i osod paneli acwstig yn dangos lluniau gwreiddiol gan aelodau'r clwb o Ddyffryn Ogwen ar ei orau.

Mae gofod cydweithio - Cydweithfa - wedi bod ar agor ers Ionawr 2024, ac mae wedi cael nifer o ddefnyddwyr cyson ac adborth cadarnhaol gan y rhai sydd wedi defnyddio'r gofod. Yn ystod yr haf gwelsom nifer o ymwelwyr yn defnyddio'r gofod, ond nid yw pobl leol wedi mabwysiadu'r gofod fel y byddem wedi gobeithio. Yn 2025, byddwn yn edrych i weithio gyda phartneriaid, megis North Wales Tech, i gynnal digwyddiadau yn y gofod yn ogystal ag ystyried sut y gallwn greu cynigion ar y cyd gyda phrosiectau eraill, megis Beics Ogwen.

Mae Canolfan Cefnfaes hefyd yn gartref i dri thenant masnachol ar hyn o bryd - Black Dragon Marial Arts, Relics Plastic Recycling, a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau. Mae'r Clwb Ieuenctid hefyd yn defnyddio'r ystafelloedd ar y llawr gwaelod ar gyfer eu cyfarfodydd wythnosol.

Ym mis Mai 2024, gosododd Ynni Ogwen 91 o baneli solar ar do Canolfan Cefnfaes i helpu i gynyddu effeithlonrwydd ynni yn yr adeilad a sicrhau ffynhonnell ynni gwyrdd ar gyfer pwyntiau gwefru ein fflyd o gerbydau trydan. Ers eu gosod, bu gostyngiad sylweddol yng nghostau rhedeg yr adeilad, ac yn ystod mis Gorffennaf, roedd yr adeilad yn gwbl hunangynhaliol am 23 allan o 31 diwrnod.

# CANOLFAN CEFNFAES

PARTNERIAETH OGWEN

Gofod GG Gwneud

Mae Gofod Gwneud yn rhoi mynediad i bobl leol at beiriannau fel torrwr laser, torrwr finyl, argraffydd 3d, argraffydd sychdarthiad ac offer gwnïo.

The Gofod Gwneud Maker Space gives locals access to machines such as laser cutter, vinyl cutter, 3d printer, sublimation printer and sewing equipment.



CYDWEITHFA

Gofod cydweithio gyda desgiau ar gael i'w llogi yn y tymor byr a'r tymor hir.

Co-working space with desks available for short and long term hire.



BEICS OGWEN

Partneriaeth Ogwen / Dyffryn Gwyrdd beics@ogwen.org

Mae Canolfan Cefnfaes yn gartref i weithdy Beics Ogwen a chanolfan llogi beiciau.

Canolfan Cefnfaes is home to the Beics Ogwen workshop and bike rental centre.



Black Dragon

RELIC

3 TENANT MASNACHOL

COMMERICAL TENANTS

Ydych chi wedi sylwi ar y paneli solar ar do'r Ganolfan? Gosodwyd y 91 o baneli ym mis Mai 2024 ac mae ganddynt gapasiti cynhyrchu o 39.13kWp. Rydym yn ddiolchgar i Ynni Ogwen, ein chwaer fenter, am ariannu'r paneli ac am ddarparu cyflenwad rheolaidd o drydan glân i ni. Rhagwelwn y bydd y paneli'n cynhyrchu tua 32,600kWh o ynni adnewyddadwy bob blwyddyn. Bydd hyn yn lleihau ôl troed carbon yr adeilad yn sylweddol ac yn arbed tua 150 tunnell o allyriadau carbon dros 20 mlynedd.

**Ers gosod y paneli solar ym Mis Mai 2024**

Cynhyrchwyd **11,302 kWh** *o ynni ar do Canolfan Cefnfaes*

**Ynni Ogwen**

Defnyddiodd yr adeilad **11,053 kWh**

ALLFORIWYD **3,475 kWh** i'r Grid Genhedlaethol a mewnforwyd **3,226 kWh**

Ym mis Gorffennaf 2024 roedd cefnfaes yn hunangynhaliol mewn ynni ar

**23 diwrnod o 31**

*ROEDD HYN YN CYNNWYS GWEFRU'R CERBYDAU TRYDAN*

Ynni@ogwen.org

Ynni Ogwen,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, Gwynedd,
LL57 3AE






*Dyluniad pensaerniol o ganolfan Yr Hen Bost*

**Yr Hen Bost**

Ers prynu hen adeilad Spar yn 2022, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn codi arian cyfalaf ac yn rhoi cynlluniau ar waith i adnewyddu'r adeilad yn ganolfan dreftadaeth newydd i Ddyffryn Ogwen ac unedau masnachol.

Yn ystod 2024, llwyddodd Grosvenor Construction Ltd i ennill y contract adeiladu ar Yr Hen Bost. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Ionawr 2025.

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad cymunedol helaeth trwy gydol y flwyddyn, gan gyrraedd dros 700 o bobl trwy ddigwyddiadau, gweithdai a holiaduron.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddechrau cynllunio ar gyfer ein canolfan dreftadaeth a sicrhau y byddwn yn gallu benthyca arddangosion a chreiriau o berthnasedd lleol o ffynonellau cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid megus Castell Penrhyn, Storiel, Amgueddfa Lechi Cymru, ardaloedd eraill o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, a llawer mwy.

# LLWYBR TRAWSNEWID 2024

## CREU BUDD ECONOMAIDD

**39kW** o PV ar Cefnfaes wedi ei osod fis Mai 2024 a PO wedi gosod batri 64kWh



**6** o ddigwyddiadau wedi'i gynnal yn Llys Dafydd dros y flwyddyn

wedi darparu gwasanaeth ymgynghorol i

4 o fusnesau neu fentrau cymunedol

**50** o fusnesau lleol yn cael ei gynnal ar wefan ogwen.cymru i'w hyrwyddo




**240** desg wedi cael ei llogi yn y Cydweithfa

**100%** o eiddo Partneriaeth Ogwen mewn defnydd trwy gydol y flywddyn

**50** o fusnesau wedi derbyn gwasanaeth cefnogi busnes gan Partneriaeth Ogwen

**22** o bobl Cymraeg, lleol yn cael eu gyflogi

**43** o sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnig i staff



# MATERION CORFFORAETHOL

**Marchnata, Ymgysylltu a Chyhoeddusrwydd**

Mae Partneriaeth Ogwen yn cynnal gwefannau www.partneriaethogwen.cymru a www.ogwen.cymru/www.ogwen.wales. Rydym hefyd yn cynnal cyfrifon Facebook - Ynni Ogwen, Siop Ogwen, Dyffryn Gwyrdd, Beics Ogwen,Bws Ogwen, Hwb Ogwen a Petha gan ddiweddaru'r tudalennau hyn yn gyson. Mae gennym hefyd gyfrifon Trydar @PartneriaethOg a @YnniOgwen, cyfrifon Instagram @partneriaethogwen a siop_ogwen, Partneriaeth Ogwen ar LinkedIn, a @partneriaethogwen ar TikTok. Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu dilyn gan dros fil o ddilynwyr. Mae'r holl waith marchnata a chyhoeddusrwydd yn cael ei rannu rhwng staff craidd y Bartneriaeth ond mae Abbie Jones ein Mentor Marchnata wedi cefnogi staff i wella ein dulliau marchnata yn ystod 2024. Mae gennym hefyd sianelau Youtube a sianel ar www.amam.cymru.

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn derbyn ceisiadau i siarad gyda mudiadau lleol a chenedlaethol am ein prosiectau a rydym yn cynnal ymweliadau cyson â'n prosiectau. Mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys grwpiau cymunedol fel Cymunedoli Cyf a mudiadau fel Cymdeithas Dai ADRA.  Mae'n staff hefyd yn rhoi cyflwyniadau am ein gwaith mewn cynadleddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru a mae'n sefydliad yn cael ei broffilio mewn nifer o astudiaethau achos.

Ym mis Medi 2024, cynhaliwyd un o gyfarfodydd staff y Bartneriaeth yng Nghastell Penrhyn. Cafwyd cyflwyniad i gorneli cudd y Castell ac roedd yn wych gweld tu ôl i'r 'facade' yn llythrennol gyda ymweliad â'r gofod uwchlaw tô'r Neuadd Fawr ac ystafelloedd eraill ble mae'r plastar wedi pydru a'r brics yn dod yn ôl i'r fei. Roedd o'n gyfle da i'r staff feddwl am hanes a threftadaeth lleol a magu perthynas waith gyda staff Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n gweithio yn y Castell – Ceri, Lois a Magi.





## Rhwydweithiau a Phrosiectau Partneriaethol

Rydym yn parhau i bartneriaethu gyda sefydliadau eraill ar draws Gwynedd a thu hwnt i ehangu ein gwaith, ymgyrchu dros y sector a chael mynediad at grantiau pellach. Enghraifft o hyn yw cydweithio diweddar gyda 33 o fentrau cymunedol ar draws Gwynedd i sefydlu Cymunedoli Cyf.
Mae'r fenter newydd hon wedi cydweithio gyda Menter Môn i ddenu cyllid grant SPF i ariannu 6 swydd gymunedol newydd yng Ngwynedd. Ym mis Medi roedd hi'n wych cael croesawu swyddogion Parciau Cenedlaethol o bob cwr o Brydain i Fethesda. Cafwyd trafodaeth wych am gynaladwyedd, twristiaeth a datblygu cymunedol. Diolch i Parc Cenedlaethol Eryri am drefnu'r digwyddiad.

## Ffrydiau Incwm Partneriaeth Ogwen

Ers ein sefydlu yn 2013, rydym wedi cynyddu ein ffrydiau incwm fel sefydliad. Yn wreiddiol, darparu gwasanaeth clerio oedd prif ffynhonnell incwm y sefydliad ond bellach, dim ond 7% o'n incwm yw'r gwasanaeth clercio gyda rhenti yn gyfwerth ag 8% o'n incwm. Mae'n cyfrifon eleni yn adlewyrchu cynnydd eto yng ngwerth y grantiau rydym yn eu denu i'r ardal gyda 81% o'n incwm. Y prif grantiau a ddaeth i fewn yn 2023 -24 oedd grant y Loteri Cymunedol tuag at priosect Dyffryn Caredig ac amrywiaeth o grantiau gan Cyngor Gwynedd tuag at Hwb Ogwen. Mae'r gwasanaeth ymgynghorol a gweinyddol yn ffrwd incwm rydym yn rhagweld y bydd yn tyfu dros y flwyddyn i ddod. Yn bennaf oherwydd mwy o ansicrwydd am grantiau cyhoeddus a'n dymuniad i warchod swyddi gan gadw'r tîm o staff arbennig sydd gennym yn y sefydliad.


Yn ogystal â dadansoddi ein incwm a gwariant fel sefydliad, rydym bellach yn ceisio edrych ar yr arbedion ariannol mae ein gwaith ni'n ei greu i'r gymuned. Mae nifer o'n prosiectau yn arbed arian yn uniongyrchol ac anuniongyrchol e.e. mae prydau poeth Swpar Chwaral a phecynnau bwyd Hwb Ogwen yn arbed costau i deuluoedd lleol a'r cyngor budd-daliadau yn gallu helpu unigolion i arbed symiau sylweddol o arian.

# Crynodeb Ariannol


**Mae Partneriaeth Ogwen yn llwyddo i ddenu nifer o grantiau yn flynyddol.**

Cyfanswm incwm yn ystod 2023/24
**£1,143,170.37**

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2023/24
**£1,123,272.30**




**Gwariant Partneriaeth Ogwen yn ystod 2022/23 a 2023/24**



# CASGLIADAU A SYMUD YMLAEN

## HWYL FAWR, MEL



Ar ol 10 mlynedd, mae Meleri Davies yn gadael Partneriaeth Ogwen i weithio fel ymgynghorydd datblygu cymunedol. Bydd yn camu i rol Prif Weithredwr Interim gyda'r Galeri o fis Tachwedd 2024 ymlaen ond bydd hi hefyd yn gweithio'n llawrydd i'r Bartneriaeth un diwrnod yr wythnos fel Cyfarwyddwr Strategol. Ers ei phenodi yn 2014, arweiniodd Meleri nifer o brosiectau mwyaf y Bartneriaeth yn cynnwys sefydlu cynllun hydro cymunedol Ynni Ogwen ac yn fwy diweddar, datblygiad prosiect Yr Hen Bost. Bydd hi'n awr yn trosglwyddo'r awennau i Donna Watts a'r tim wrth iddi symud ymlaen i bennod gyffrous newydd.

"Mae hi wedi bod yn fraint arwain tim anhygoel Partneriaeth Ogwen am dros 10 mlynedd a hoffwn ddiolch i'r holl staff a gwirfoddolwyr sydd wedi bod mor gefnogol i mi ar hyd y daith. Dwi di caru fy ngwaith a'r pobol dwi wedi gweithio efo nhw yn Nyffryn Ogwen a thu hwnt."

Donna Watts fydd Prif Swyddog Gweithredol y cwmni o hyn allan gan arwain y tim o dros 20 o staff sy'n gweithio i'r Bartneriaeth. Bydd staff eraill hefyd yn cymryd dyletswyddau ychwanegol ymlaen wrth i Meleri adael y Bartneriaeth. Mae Donna wedi gweithio i Bartneriaeth Ogwen ers 2015 a mae'n angerddol dros ei chymuned. Mae hi wedi arwain gwaith cyllid a gweinyddol y Bartneriaeth a rheoli'r tim clercod dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n edrych ymlaen at yr her newydd o arwain pennod nesaf Partneriaeth Ogwen.

Dywed Donna Watts, Prif Weithredwr Gweithredol “Mae hi wedi bod yn fraint gweithio hefo Meleri dros y 9 mlynadd diwethaf. Mai di bod yn bleser ei chael fel rheolwr, cyd-weithwraig a ffrind annwyl. Fydd na fwlch enfawr yn y cwmni hebddi, mi fydda ni gyd yn ei methu. Ond rwy'n falch o ddweud bod Meleri am fod yn gweithio un diwrnod yr wythnos yn llawrydd hefo ni, felly fydd hi ddim yn ddiarth. Rydw i eisiau dymuno pob hapusrwydd iddi i'r dyfodol a phob llwyddiant gyda phennod newydd ei gyrfa."

“Dwi'n teimlo'n lwcus iawn cael gweithio yn y pentref lle nes i dyfy fyny, a gweld y gwahaniaeth mae prosiectau Partneriaeth Ogwen yn ei gael yn ein cymuned. Rydw i'n edrych ymlaen i'r her sydd o fy mlaen, ac yn hyderus y bydd holl waith llwyddiannus Partneriaeth Ogwen yn parhau i'r dyfodol.”

**Diweddglo**

Mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo i gyflawni a mynd tu hwnt i’r targedau yn ein Llwybr Trawsnewid a mae’n prosiectau yn gwneud gwahaniaeth yn lleol. Mae hyn i lawr i waith caled staff a gwirfoddolwyr sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i’n cymuned, economi, iaith a diwylliant ac amgylchedd. Hoffai’r staff i gyd ddiolch i’r holl wirfoddolwyr ar ein Bwrdd a’r rhai sy’n helpu gyda’n prosiectau am eu cymorth a’u cefnogaeth.



# PARTNERIAETH OGWEN 2024

www.partneriaethogwen.cymru

partneriaeth@ogwen.org

01248 602 131

partneriaethogwen